Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Cyfansoddiad yr ysgol, diwylliant yr ysgol ac anghydraddoldebau yn iechyd pobl ifanc

Brîff Ymchwil Iechyd a Lles Ysgolion, Ebrill 2017

Mae statws economaidd-gymdeithasol teulu ac ysgol myfyriwr yn rhyngweithio gyda'i gilydd i greu gwahaniaethau mewn deilliannau addysgiadol. Gall hynny arwain at yr hyn a elwir yn effaith 'broga-pwll dŵr', lle mae'r myfyrwyr mwyaf amddifad fel arfer yn elwa lleiaf yn academaidd o fynychu'r ysgolion mwyaf breintiedig. Ond a oes yna effaith 'broga-pwll dŵr' ar gyfer deilliannau iechyd yng Nghymru?

Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod…

Mae ymchwil flaenorol yng Nghymru'n awgrymu bod effaith 'broga-pwll dŵr' ar gyfer rhai deilliannau iechyd. Er, yn ôl y disgwyl, darganfuwyd bod arferion yn iachach mewn ysgolion mwy breintiedig yn gyffredinol, ac roedd *cyfoeth teuluoedd yn* yr ysgolion hyn yn llawer mwy cysylltiedig ag iechyd o gymharu ag ysgolion llai breintiedig, sy'n awgrymu bod cyfoeth lefel-ysgol a chyfoeth lefel-teulu'n rhyngweithio i ehangu anghydraddoldebau iechyd mewn ysgolion mwy breintiedig.

Gall diwylliannau ysgol cefnogol, cynwysoldeb a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon a myfyrwyr wella arferion iechyd, wrth ostwng anghydraddoldebau.

Yr hyn a wnaethom...

- Defnyddiom ni ddata o Arolwg Ymddygiad Iechyd Ymhlith Plant Oed Ysgol yng Nghymru 2013/14 a'r holiadur amgylchedd ysgol oedd yn cyd-fynd ag ef.
- Edrychom ni ar sut mae arferion iechyd myfyrwyr yn amrywio yn ôl cyfoeth eu hysgolion (% y myfyrwyr sy'n cael prydau bwyd ysgol am ddim). Yna, ym mhob ysgol, edrychom ni ar y ffordd mae arferion iechyd myfyrwyr yn amrywio yn ôl cyfoeth eu teuluoedd.
- Marciodd y myfyrwyr ansawdd eu perthnasoedd athro -myfyriwr a chyfoedion a'u cyfranogiad yn y broses gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, gofynnwyd i fyfyrwyr sôn am eu gweithgarwch corfforol, faint o ffrwythau a llysiau roeddent yn eu bwyta, defnydd sylweddau a'u hiechyd a lles cyffredinol.
- Mesurwyd ymrwymiad yr ysgol at iechyd trwy wirio a oedd blaenoriaethau'r uwch dîm rheoli'n cynnwys iechyd corfforol ac emosiynol y myfyrwyr ai peidio, ac a oes cynllun iechyd gweithredol ysgrifenedig mewn lle ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Yn gryno

- **Rhyngweithiodd cyfoeth yr ysgol a chyfoeth y teulu i greu anghydraddoldebau iechyd ehangach mewn ysgolion breintiedig.**
- **Adroddodd myfyrwyr o deuluoedd llai breintiedig lefelau uwch o les pan fyddent yn mynychu ysgolion llai breintiedig, gan awgrymu effaith andwyol ar les pan fyddai myfyrwyr o deuluoedd tlotach yn mynychu ysgolion breintiedig.**
- **Roedd perthnasoedd rhwng athrawon a myfyrwyr yn fwy cadarnhaol mewn ysgolion llai breintiedig ac yn elfen bwysig mewn perthynas ag iechyd a lles myfyrwyr.**

Yr hyn a ganfuom…

Cyfoeth ysgol a theulu ac iechyd

- Adroddodd myfyrwyr mewn ysgolion mwy breintiedig arferion mwy iachus, ond nid lles gwell.
- Roedd arferion iechyd yn fwy anghyfartal ymhlith myfyrwyr mewn ysgolion breintiedig, sy'n golygu bod cyfoeth ysgol a theulu yn rhyngweithio i greu anghydraddoldebau ehangach mewn ysgolion breintiedig.
- Mae'r uchod yn cefnogi'r ddamcaniaeth 'broga-pwll dŵr' nad yw myfyrwyr o deuluoedd llai breintiedig yn elwa i'r un graddau â'u cyfoedion mwy cyfoethog pan fyddant yn mynychu ysgol freintiedig.
- Roedd lles ymhlith myfyrwyr o'r teuluoedd lleiaf breintiedig yn amlycaf yn yr ysgolion lleiaf breintiedig, sy'n awgrymu effaith andwyol pan mae myfyrwyr o deuluoedd llai breintiedig yn mynychu ysgolion breintiedig.

Cyfoeth ysgol a theulu ac amgylchedd cymdeithasol yr ysgol

- Adroddwyd y perthnasoedd mwyaf cadarnhaol rhwng athrawon a myfyrwyr gan y myfyrwyr lleiaf breintiedig yn yr ysgolion lleiaf breintiedig, ac adroddwyd y perthnasoedd mwyaf negyddol gan y myfyrwyr lleiaf breintiedig yn yr ysgolion mwyaf breintiedig.
- Mae hyd yn oed myfyrwyr o'r teuluoedd mwyaf breintiedig yn adrodd perthnasoedd o ansawdd gwell gydag athrawon pan maen nhw'n mynychu ysgolion llai breintiedig.

Amgylchedd cymdeithasol yr ysgol ac iechyd

- Roedd ansawdd perthnasoedd rhwng athrawon a myfyrwyr yn ffactor bwysig mewn perthynas ag iechyd a lles myfyrwyr.
- Yn ogystal, cysylltwyd lles gydag ansawdd perthnasoedd myfyrwyr â'u cyfoedion a'u cyfranogiad yn y broses gwneud penderfyniadau.
- Cysylltwyd ymrwymiad cryfach yr ysgol at iechyd gydag anghydraddoldebau lles llai, ond nid anghydraddoldebau arferion iechyd.

Materion i'w hystyried

Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys nifer fawr o ysgolion sy'n gynrychiadol o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn gyffredinol.

Casglwyd yr holl ddata ar yr un pwynt mewn amser (arolwg trawsadrannol) felly gallwn ddatgan gyda sicrwydd bod cyfoeth ysgol a theulu ac amgylchedd cymdeithasol yr ysgol yn achosi'r gwahaniaethau mewn iechyd a lles y myfyrwyr.

Mesurwyd y syniad cymhleth o les gydag un cwestiwn yn unig yn yr arolwg.

Ariannwyd yr astudiaeth gan Lywodraeth Cymru fel rhan o astudiaeth Ymddygiad Iechyd Ymhlith Plant Oed Ysgol Sefydliad Iechyd y Byd. Cefnogwyd dadansoddi'r data gan grant y Cyngor Ymchwil Meddygol.

Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- **Pan mae myfyrwyr o gartrefi llai breintiedig yn mynychu ysgol fwy breintiedig, nid ydynt yn elwa llawer o ran eu hiechyd a'u lles, er gwaethaf cael mynediad at yr un deunyddiau ac adnoddau.**
- **Gall chwalu'r ffiniau sy'n bodoli rhwng staff a myfyrwyr trwy well perthnasoedd rhwng athrawon a myfyrwyr fod yn ffordd bwysig i ysgolion wella iechyd myfyrwyr a lleihau anghydraddoldebau iechyd ymhlith eu myfyrwyr.**

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Gallwch ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim yma:

http://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1002/berj.3265/full

Moore G et al (2017) School composition, school culture and socioeconomic inequalities in young people's health: mulit-level analysis of the Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) survey in Wales. British Educational Research Journal 43(2): 310-329

Sefydlwyd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion gyda grant partneriaeth gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (MR/L002787/1) ac fe'i cefnogir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Lles y Boblogaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.